CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**05.03.26**
**6:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*

## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*

## *Hwb LlanNi*

## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** EY (Cadeirydd) RJ; AR; TAJ; DAW; GW; IW; EO;DP;JAJ<br>**Ymddiheuriadau:** JOJ; LLMH; RY<br>**Mynychu:** Cyng Jackie Lewis; SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau uchod.<br>Estynwyd croeso cynnes yn ôl i JAJ.<br>Dymunodd y Clerc ddiolch am holl gefnogaeth yr aelodau yn dilyn cyfnod o salwch teuluol. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd RJ ddiddordeb yn Eitem 8 Materion Safleoedd – Lawnt Fowlio.<br>TAJ ym materion Cyllid<br>DAW/GW unrhyw drafodaeth am swydd Clerc |
| 3 | **Cofnodion 06.11.25**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 08.01.26 (AR/TAJ)<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>**Swydd Clerc –** adroddodd y Clerc ei bod wedi gorfod ymestyn y dyddiad cau oherwydd ei habsenoldeb. Dyddiad cau bellach yn 20 Mawrth ac mae 3 cais i law. Cytunwyd i EY/JAJ/AR/a'r Clerc dynnu rhestr fer 23.3.26. Gwahodd yr ymgeiswyr y rhestr fer i fynychu cyfafod mis Ebrill trwy ZOOM. Cyfweld 9 Ebrill am 6:30. Clerc i |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | weithredu'r trefniadau gyda chymorth Katherine Brown Unllais. Cytunodd y Clerc i barhau i weithredu yn gefnogaeth os bydd apwyntio hyd nes bydd trosglwyddiad manteisiol i bawb.<br><br>**Materion Priffyrdd –** dim diweddariad ar y Cynllun Gweithredu. JL a'r Clerc i gysylltu'n uniongyrchol gydag Alun Roberts i drafod<br>• problem ffordd trwy Carmel<br>• holi pwy dorodd y gwrychyn ac angen ail osod yr arwyddion<br>• arwydd wrth y tro am y cae peldroed<br>• cyflwr ffordd Stryd y Bont/Ffordd Caergybi.<br><br>**Treth Busnes Uned 5/6 –** cafwyd cadarnhad bod rhaid talu'r dreth ers Ebrill 2024. Diolchwyd i JL am ei hymdrechion i wirio'r taliadau. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd cytunwyd i dalu'r swm llawn £3761.85 ar unwaith i osgoi achos Llys a ffioedd taliad hwyr.<br><br>**Bin sbwriel CPD Llan –** yn dilyn trafodaeth cynnigiodd JAJ i beidio gofyn a fin amgen er mwyn osgoi'r costau casglu. CPD am ddelio ei hunan.<br><br>**Parc Solar Maes Athen** – trafodwyd ebost Declan Pritchard yn cynnig dyddiadau ar gyfer cyfarfod cyhoeddus. Cytunwyd ar 7 Ebrill, Clerc i ateb yr ebost.<br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 05.03.26 |
| **4** | **Materion trwy'r Gadair**<br><br>**Cynllun Datblygu LLeol –** dosbarthwyd manylion ymgynghoriad gan CSYM ar y Cynllun Datblygu Lleol eisoes – dyddiad cau 25 Mawrth 2026. Cytunwyd i'r Clerc gasglu'r sylwadau i lunio ymateb, a'i rannu cyn cyflwyno. Ymatebion i'r Clerc erbyn 20.3.26<br><br>**Eglwys Ceidio –** dosbarthwyd cryn dipyn o wybodaeth gan Alan Kennett am ei ymgyrch i geisio arian Loteri i ddiogelu'r Eglwys. Yn dilyn trafodaeth fer, cytunwyd y byddai'n fuddiol i wahodd Mr Kennett i gyfarfod mis Ebrill er mwyn trafodaeth bellach.<br><br>**Balchder Bro –** nododd y Clerc bod manylion i law cyfarfod y Fforwm Cyswllt am arian Balchder Bro sef arian gan Llywodraeth DU – cyfanswm i Gynghorau Tref a Chymuned Ynys Mon yn £750K – rhagor o fanlyion am y telerau i ddilyn yn fuan.<br><br>**Cyfarfod Porth y Meirw (Lych Gate) –** adroddwyd ar gyfarfod a drefnwyd gan swyddogion yr Eglwys i drafod atgyweirio Porth y Meirw. Mae costau oddeutu £22K. Nid yw CADW am gyfrannu at y gost ac maent ar hyn o bryd yn ystyried y cais i adnewyddu gan fod y Porth yn adeilad rhestredig Gradd II |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Rhannodd y Clerc fanylion ffynonellau eraill o gyllido gyda'r Warden Elfed Jones. Nodwyd bod ychydig o arian ar gael yn dilyn gwerthiant yr eiddo ger yr Eglwys.<br><br>Mae pryder am ddiogelu'r Cloc yn parhau. Cytunwyd i ofyn i RPO Williams osod gorchudd dros-dro dros y porth i osgoi unrhyw brolem gyda glaw. Clerc i hysbysu Bethan Jones Eglwys yng Nghymru pan fydd hyn wedi ei gwblhau. |
| 5 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 08.01.26**<br><br>£<br>Arian cledrau i'r Ardd Gymunedol 250.00<br>BG – CPD 111.45 – addasiad yn creu cyfrif mewn credyd £63.27<br>Sion Williams torri gwair – contract AT&AE Lewis 4715.00<br>Unllais - aelodaeth 110.00<br>Cydnabyddiaeth Sbwrela 220.00<br>Trethi Uned 5/6 – CSYM ers 2024 3761.85<br>HMRC – Moorcrofts Grp 339.51<br>MAT Service – galnhau ffliwia Caffi 465.00<br>Bagia baw ci 77.88<br>HMRC 495.20<br>BG - Uned 1 14.65<br>BG -Uned 2 11.69<br>Llogi'r Hwb am flwyddyn 169.00<br>BG Clwb Bowlio 26.06<br>BG – Coeden Dolig 16.68<br>Emma Dixon – dwr Peniel x 2 fl 30.00 & 20.00<br>Rhys Williams torri gwair 1905.00<br>Alun Foulkes -Internal Audit 2024-5 200.00<br><br>Cyflog Clerc - Chwef & Zoom 676.09<br><br>**Balans heddiw**<br>Cyfredol: £2754.91<br>Wrth Gefn: £51 278.68<br>• £22K Cae Astro<br>• £20K Hwb LlanNi<br>• £ 9K yn weddill |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Cyfrifon Blynyddol 2024-25 -** Archwiliwr Mewnol wedi edrych ar adroddiad Archwilio Cymru ac yn cadarnhau and oes gwaith i'w wneud ar gyfer y flwyddyn hon.<br><br>**Rhoddion Blynyddol**<br>Cytunwyd i dalu'r canlynol –<br>• Cymorth i CPD genethod dan 13oed - £250 o gronfa Ysgol Haearn (GW/AR)<br>• Cefnogi Cronfa Goffa Elgan – timau rhedeg yn Lerpwl - £50<br>• Môn FM - £50 (DAW/EO)<br>• Yr Arwydd - £50<br>• CACF 2027 Sioe Frenhinol 2027 – Ynys Mon yn arwain - £50<br><br>**Taliadau Blynyddol Costau Clerc –** codwyd cyfanswm blynyddol y costau ym mis Tachwedd 2023 i £600 y flwyddyn. Yn dilyn ymchwilio i gyflog cyfredol y Clerc nodwyd nad oedd yr ychwanegiad o £50 wedi ei dalu i'r Clerc yn 2024 na 2025. Cynigiodd TAJ i ad-dalu £100 i'r Clerc, eilwyd gan EO a chytunwyd yn unfrydol. |
| **6** | **Materion Cynllunio** - dau gais wedi ei cylchredeg ers Ionawr – Tawelfan a 8 Bryncir. Nodwyd dim gwrthwynebiad<br><br>Manylion i law am ddatblygiad ger Unedau Tan y Foel. Nodwyd bod y broses yn mynd rhagddo. |
| **7.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** adroddodd Cyng Jackie Lewis ar y canlynol<br><br>• Cyllideb CSYM wedi ei chymeradwyo heddiw. Codi'r dreth 5.1%<br>• Mater problem parcio loriau mawr ym meysydd parcio Caergybi<br>• Cyfeirodd at y Cynllun Datblygu Lleol ar hawl i anfon sylwadau erbyn 25.3.26<br>• Ymgynhoriad ar Parc Penrhos yn Llyfrgell Caergybi – 12/13 Mawrth<br>• Trafodaeth yn y Cyngor Sir am y pwysigrwydd o ddiogelu'r Wiwerod Coch yr Ynys. . |
| **8** | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel –** gweler Eitem 6<br><br>**Safle'r Stesion** – twll yn y Maes Parcio – TAJ wedi gofyn i RPO am gymorth a DAW wedi ei atgoffa hefyd. JAJ am ddilyn hyn i fyny Cytunwyd i fframio llun Margiad Ann er mwyn ei arddangos ar gyfer gwerthiant yn yr Hwb. Nododd TAJ a JAJ eu bod am ail-osod y lluniau yn y Caffi yn fuan.<br><br>**Lawnt Fowlio –** CCTV o'r Caffi – GW/DAW i weithredu cyn 30 Ebrill<br><br>**Rhandiroedd** – ymddiheurodd y Clerc am yr oedi yn cwblhau'r termau. |



Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Cytundeb Torri Gwair** –<br>***ON yn dilyn y cyfarfod**.*<br>*Bu i'r Clerc anghofio hysbysu'r aelodau bod y cytundeb presennol wedi dod i ben Hydref 2025.  Cafwyd trafodaeth frys trwy ebost drannoeth y cyfarfod.  Yng ngoleuni'r trosglwyddiad posib o ddylestswyddau'r Clerc, ac yn dilyn cyngor gan Archwiliwr Mewnol, cytunwyd yn unfrydol i ymestyn y cytundeb presennol am flwyddyn arall.*<br>**Cae Gofeb –** cytunwyd i RJ/IW drwsio'r arwyddion yn y cae beiciau bach.  RJ/JAJ gynnal archwiliad safle ar gyfer y ffens cyfochrog a'r tai.  Cytunodd RJ i dynnu'r rithoedd a'u gwaredu.<br>Cytunwyd i dwtio'r Gofeb – trafod ymehllach ym mis Ebrill<br>**Clwb Peldroed –** nododd JAJ bod trefniadau ar y gweill i wella ardal parcio CPD.<br>**Mynwentydd –** dim i law<br>Trafodwyd y llain ger Eglwys Codana.  Cytunodd DP i holi am ei berchnogaeth. |
| **9.** | **Gohebiaeth**<br>Nodwyd cynnwys yr ohebiaeth a gylchredwyd eisoes trwy ebost |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm* | |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG** Ffôn:  01248  470383
sydnaroberts@btinternet.com

Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG** Ffôn:  01248  470383
sydnaroberts@btinternet.com